**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig, Briwgig a Pharatoadau Cig) (Cymru) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu yng Nghymru Benderfyniad gan y Comisiwn ynghylch marcio a defnyddio cynhyrchion anifeiliaid penodol mewn perthynas â Phenderfyniad cynharach ynghylch mesurau diogelu mewn perthynas â chlwy'r traed a'r genau yn y Deyrnas Unedig.

Gweithredir drwy ddiwygio Rheoliadau Cig Ffres (Hylendid ac Archwilio) 1995 a Rheoliadau Briwgig a Pharatoadau Cig (Hylendid) 1995 er mwyn darparu y caiff cig ffres, briwgig a pharatoadau cig sy'n cael eu gwneud o gig sy'n deilio o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig ac yn cael ei drafod yn unol ag Erthygl 2(2) o Benderfyniad 2001/172/EC barhau i ddwyn nod iechyd y Gymuned.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Rheoliad 2 - troednodyn c**

Ceir ail gyfeiriad amhriodol at O.S. 1995/3189, a chyfeiriad at Offeryn Statudol ar gyfer Lloegr yn unig, (O.S. 2000/2215).

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

22 Mai 2001